# Pwyllgor Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn

## Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 6 Gorffennaf 2017

| | |
|---|---|
| **YN BRESENNOL:** | Lewis Davies, R Dew, John Griffith, Richard Griffiths, Glyn Haynes, T Ll Hughes MBE, K P Hughes, Vaughan Hughes, Llinos Medi Huws, Carwyn Jones, R Ll Jones, A M Jones, G O Jones, Richard Owain Jones, Eric Wyn Jones, Alun W Mummery, Bryan Owen, R G Parry OBE, Shaun James Redmond, Dylan Rees, J A Roberts, Dafydd Roberts, Margaret Murley Roberts, Nicola Roberts, P S Rogers, Dafydd Rhys Thomas, Ieuan Williams a Robin Williams |
| **WRTH LAW:** | Ysgrifennydd,<br>Trysorydd,<br>Swyddog Pwyllgorau (MEH). |
| **YMDDIHEURIADAU:** | R Meirion Jones |
| **HEFYD YN BRESENNOL:** | Neb arall yn bresennol |

---

### 1 ETHOL CADEIRYDD

Cafodd Mr. Trefor Ll. Hughes MBE ei ethol yn Gadeirydd Pwyllgor Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn.

Diolchodd Mr. Hughes i'r aelodau am ddangos hyder ynddo. Diolchodd hefyd i'r cyn Gadeirydd, Mr. T Victor Hughes am ei waith yn ystod ei gyfnod yn y rôl.

### 2 ETHOL IS-GADEIRYDD

Cafodd Mr. R.O. Jones ei ethol yn Is-gadeirydd Pwyllgor Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn.

### 3 DATGANIAD O DDIDDORDEB

Ni chafwyd unrhyw ddatganiadau o ddiddordeb.

### 4 COFNODION

Cadarnhawyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 18 Ebrill, 2017 fel rhai cywir.

Cafodd y Pwyllgor ddiweddariad gan yr Ysgrifennydd bod Browne Jacobson LLP bellach wedi cyflwyno cais i'r Comisiwn Elusennol i gofrestru'r Sefydliad Elusennol Corfforedig (CIO). Dywedodd, os yn briodol, y bydd adroddiad diweddaru yn cael ei gyflwyno i aelodau'r Ymddiriedolaeth Elusennol llawn cyn y cyflwynir adroddiad ffurfiol llawn gyda manylion y weithdrefn lywodraethu ar gyfer Cymdeithas Elusennol Ynys Môn yn y man.

### 5 PENODI SWYDDOGION AC AELODAU I WASANAETHU AR BWYLLGORAU'R YMDDIRIEDOLAETH

Cyflwynwyd – adroddiad gan yr Ysgrifennydd mewn perthynas â phenodi Swyddogion ar gyfer yr Ymddiriedolaeth Elusennol a'r angen i benderfynu ar strwythurau'r pwyllgorau ac i benodi aelodau i wasanaethu ar y pwyllgorau hynny. Awgrymwyd, gan fod yr Ymddiriedolaeth wedi gwneud cais i'r

Comisiwn Elusennau i newid y strwythur llywodraethu i Sefydliad Elusennol Corfforedig, y dylid cael strwythur pwyllgorau o 3 phwyllgor o'r Ymddiriedolaeth, sef:-

Pwyllgor Buddsoddiadau a Chontractau;

Pwyllgor Grantiau Cyffredinol;

Pwyllgor Adfywio

Dylid parhau yn y tymor byr gyda'r trefniadau presennol a dylid manteisio ar y cyfle i adolygu'r strwythur pwyllgorau unwaith y bydd penderfyniad terfynol y Comisiwn Elusennol wedi'i wneud.

**PENDERFYNWYD:-**

- **Rhoi awdurdod i Gadeirydd ac Is-gadeirydd Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn awdurdodi gwariant yr Ymddiriedolaeth;**

- **Penodi'r aelodau canlynol i'r 3 Phwyllgor o'r Ymddiriedolaeth Elusennol:-**

  **Pwyllgor Buddsoddiadau a Chontractau**

  **K.P. Hughes, T.Ll. Hughes MBE, Aled M. Jones, G.O. Jones, R.Ll. Jones, Alun Mummery, Dafydd Roberts, Nicola Roberts, Dafydd R. Thomas, Robin Williams.**

  **Pwyllgor Grantiau Cyffredinol**

  **Lewis Davies, Richard A. Dew, Glyn Haynes, Vaughan Hughes, Llinos M. Huws, R.O. Jones, Dylan Rees, Margaret M. Roberts, Peter Rogers, Shaun Redmond.**

  **Pwyllgor Adfywio**

  **John Griffith, Richard Griffiths, Carwyn Jones, Eric Jones, R. Meirion Jones, Bryan Owen, Bob Parry OBE FRAgS, Alun Roberts, J. Arwel Roberts, Ieuan Williams.**

- **Nodi y bydd Cadeirydd ac Is-gadeirydd Ymddiriedolaeth Ynys Môn yn aelodau ex-officio ar bob un o'r 3 Phwyllgor.**

**Mr. Trefor Ll. Hughes MBE**
**Cadeirydd**